**Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog**
—
**Committee for the Scrutiny of the First Minister**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
CraffuPW@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCraffuPW
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
ScrutinyFM@senedd.wales
senedd.wales/SeneddScrutinyFM
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Cc: Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Drwy e-bost

04 Gorffennaf 2025

Annwyl Elin,

Gwaith Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mehefin 2025.

Mae’r Pwyllgor wedi cael cyfle i drafod bwrw ymlaen â chraffu ar waith y Prif Weinidog mewn perthynas â bylchau a nodwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru (y Pwyllgor Covid) yn ei ganfyddiadau ar Fodiwl 1 o’r Ymchwiliad. Gwnaethom nodi bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi’i wahodd i arwain y gwaith craffu manwl ar fylchau Modiwl 1, a'r adroddiad sydd ar ddod ar Fodiwl 2, ac yn deall ei fod yn bwriadu edrych ar y mater hwn ac ystyried dull arfaethedig yn ei gyfarfod ar 10 Gorffennaf 2025. Felly rydym wedi penderfynu gohirio gwneud penderfyniad ynghylch bwrw ymlaen â'r gwaith hwn nes bod PAPAC wedi cytuno ar ei ddull gweithredu.

Rydym yn bwriadu trafod y mater hwn ymhellach yn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf, pan fydd mwy o eglurder ar sut mae PAPAC yn bwriadu bwrw ymlaen.

Yn gywir

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.